



02

Esgyn /
Uprisings

Becca Voelcker

20.07 – 20.10 2013

Becca Voelcker

20.07 – 20.10 2013

Esgyn /
Uprisings

Mae ffilmiau Becca Voelcker, a aned ym 1990 ym Mhant Glas, gogledd Cymru, yn cyfuno materion lle a hunaniaeth. Mae'r arddangosfa hon yn cyflwyno ei gwaith Memos (2012) sy'n canolbwyntio ar long fordeithio a adawyd ar arfordir gogledd Cymru nepell o'r Fflint. Gan ymdrochi mewn haenau o ymgysylltu, atgof a naratif, mae'r gwaith yn cyfeirio at bwysigrwydd y ddelwedd symudol a'i gallu i ddwyn cysylltiadau gydag amseroedd a lleoliadau eraill i gof. Mae hefyd yn amlygu agwedd ddysgedig Voelcker tuag at hanes sinema, ac yn arbennig, y defnydd o ffilm fel cyfrwng i greu celf.

Born in 1990 in Pant Glas, North Wales, Becca Voelcker's films mingle together issues of place and identity. This exhibition presents her work Memos (2012) which focuses on an abandoned cruise liner on the North Wales coast near Flint. Luxuriating in layers of association, memory and narrative, the work points to both the significance of the moving image and its ability to recall our associations with other times and locations. It also demonstrates Voelcker's erudite approach to the history of cinema and, in particular, the use of film as a medium for art-making.

Adam Carr

Curadur Rhaglen Celfyddydau Gweledol /
Visual Arts Programme Curator
MOSTYN



•
DELWEDD / IMAGE
Memos, 2012
delwedd lonydd o ffilm / film still



Cyfweliad gyda / An interview with Becca Voelcker —

Adam Carr: Cawsoch eich geni yng Ngogledd Cymru ac fe sonioch yn flaenorol bod cael eich magu'n ddwyieithog wedi dylanwadu ar y gwaith yr ydych yn ei wneud. Allwch chi esbonio sut mae hyn yn cael dylanwad ar eich gwaith ac i ba raddau?

Becca Voelcker: Mae'r ffaith i mi gael fy magu'n ddwyieithog wedi cael effaith ddeublyg ar fy ngwaith a fy niddordebau. Yn gyntaf, mae'r gwahaniaeth rhwng dwy iaith a dau ddiwylliant wedi fy ngwneud yn sensitif i wahaniaethau rhwng pethau sy'n cydfodoli - felly rwyf wedi datblygu llygaid am bethau sy'n cyferbynnu ac yn croesddwedd ei gilydd o fy nghwmpas neu yn y lleoedd yr wyf wedi ymweld â hwy (llong a fu unwaith yn symud sydd bellach yn sefyll yn ei hunfan mewn cae yn Memos; dawns disgo â'i gwreiddiau yn America mewn gwyl glan môr yng Nghymru yn Disco Gwerin; palas art deco mewn maestref yn Llundain yn Eltham Palace]. Yn ail, mae'r ffaith fy mod i wedi cael fy magu'n ddwyieithog wedi gwneud i mi deimlo bob amser fel rhywun o'r tu allan, mewn gofod trothwyol rhwng dau ddiwylliant a hunaniaeth. Ac mae hyn wedi creu diddordeb mewn ffyrdd o edrych (a ffilmio): pa mor agos neu bell yr wyf fi fy hun a gwylwyr oddi wrth y gwrthrychau sy'n cael eu ffilmio; p'un ai a ydw i'n ffilmio ac yn ystyried yr hyn yr edrychir arno fel Arall neu fel cyd-ddyn neu gartref. Gallai siarad mwy nag un iaith gydweddu â gallu i ddangos empathi a chadw pellter yr un pryd, a gallu edrych a ffilmio o wahanol bellteroedd ac mewn gwahanol 'leisiau'.

Adam Carr: You were born in North Wales and you mentioned to me before that growing up bilingually has informed the work you make. Could you explain how this conditions your work and to what extent?

Becca Voelcker: My bilingual upbringing has two main implications on my work and interests. Firstly, the difference between two languages and cultures made me sensitive to differences between things as they coexist - so I developed an eye for contrasts and contradictions in my surroundings or places visited (a once moving ship now static in a field in Memos; an American-inspired disco dance in a Welsh seaside pageant in Disco Gwerin; an art deco palace in a London suburb in Eltham Palace). The second implication of my bilingual upbringing is the feeling it gave me of always being an outsider and occupying a liminal space between two cultures and identities. And this made me interested in ways of looking (and filming): how close or distant I position both myself and viewers from objects filmed; whether I film and regard what is looked at as an Other or as a fellow creature or home. Being able to speak more than one language could be an analogy for being able to empathise and distance oneself simultaneously, and for being able to look and film in different proximities and 'voices'.



AC: Gan eich bod yn gweithio gyda chyfrwng ffilm yn unig, mae gennyf ddi-ddordeb mewn gwybod mwy am yr hyn a'ch denodd i weithio gyda'r cyfrwng hwn...

BV: Yn ystod dyddiau cynnar fy mhlentyndod, doedd gennym yr un teledu gartref ac felly, roedd fy mhrofiad o weld unrhyw sgrin yn gysylltiedig â thu allan i'r cartref- yng nghartrefi fy ffrindiau neu yn y sinema. Y sinemâu oeddwn i'n ei hoffi mewn gwirionedd. Taniwyd fy niddordeb mewn ffilm pan oeddwn tua saith neu wyth oed pan ddechreuais fynd gyda fy rhieni i gymdeithas ffilm Harlech. Bob mis cynhelid rhaglen o ffilmiau o bob cwr o'r byd. Cyn fy mod hyd yn oed yn gwybod ble'r oedd Iran, Japan neu Rwsia ar y map, heb sôn am enwau'r cyfarwyddwyr, roeddwn wedi fy hudo gan ffilmiau o'r lleoedd hyn, oherwydd eu bod yn teimlo mor wahanol i'r hyn oedd o fy nghwmpas i. Ac roedd hyd yn oed ffilmiau, a oedd wedi eu lleoli mewn rhannau gwledig o Brydain a oedd yn debyg i fy nghartref i, yn apelio ataf mewn ffordd newydd a rhyfedd, wedi eu taflunio'n fawr ar y sgrin a'u golygu mewn ffyrdd arbennig. Penseiri yw'r rhan fwyaf o fy nheulu, a chafodd y cyfle i ymweld â safleoedd ac adeiladau gyda hwy effaith ddofn ar y ffordd yr wyf yn edrych ar leoedd - rwy'n eu harchwilio, mewn ffordd. Pan symudais i Lundain i astudio Celfyddyd Gain yn Goldsmiths, roeddwn i'n awyddus i archwilio'r ddinas, gan nad oeddwn wedi byw mewn dinas o'r blaen. Yn ystod y misoedd cyntaf yno cerddais hyd at 12 milltir ar y tro, gyda camera ac esgidiau cryfion, yn tynnu ffotograffau o beth welwn wrth fynd ar fy nhaith.

AC: As you work exclusively in the medium of film I am interested to know more about what attracted you to work with it...

BV: For my early childhood, we didn't have a TV and so any screen media was encountered outside my home - at friends' houses or the cinema. It was really the cinema that I loved. My interest in film was kindled since I was around seven or eight and began going with my parents to Harlech film society. It was a monthly program of films from all around the world. Before I even knew where Iran, Japan or Russia is on the map, let alone directors' names, I was mesmerised by films from these places, because they simply felt so different to my own surroundings. And even films set in rural parts of Britain similar to my own home took on a new and strange appeal, projected large on the screen and edited in particular ways. My family is predominantly architects by profession, and visiting sites and buildings with them had a profound effect on the way I look at places - I make surveys, in a way. When I moved to London to study Fine Art at Goldsmiths, I wanted to survey the city, as I'd never lived in one before. In my first months there I walked up to 12 miles at a time, with a camera and sturdy shoes, photographing what I passed on my journey.

Cyfweliad gyda / An interview with Becca Voelcker —

AC: Mae rhaglen o ffilmiau'n cael ei threfnu gennych ar gyfer y Whitechapel yn Llundain. Allwch chi egluro mwy ynglŷn â sut yr ydych yn gweld eich holl waith yn dod at ei gilydd, sef gwaith trefnu a chreu celf?

BV: Mae fy ngwaith yn cyfuno gwneud fy ffilmiau byr fy hun, a threfnu ac ysgrifennu am ffilmiau gan artistiaid eraill. Mae'r disgyblaethau'n ategu ac yn dylanwadu ar ei gilydd, wrth i mi ymchwilio i syniadau neu dechnegau gwneuthurwr ffilm arall, rwy'n meddwl am fy ffilmiau fy hun a phan rwy'n anelu fy nghamera ac yn creu lluniau, rwy'n casglu syniadau ar gyfer fy ngwaith ysgrifennu academiaidd. I mi, mae gwaith trefnu'n gyfuniad o edrych yn ymarferol a dethol a dull mwy ymenyddol a myfyriol - yn ogystal â threfnu. Rwy'n rhoi'r un sylw i ddethol a rhoi ffilmiau pobl eraill at ei gilydd ag a roddaf i ddethol fy saethiadau fy hun i'w golygu'n ddilyniannau a ffilmiau.

AC: Soniwch am y gwaith Memos. Mae'n waith pwysig i ni yma ym MOSTYN gan ei fod yn edrych ar yr ardal leol. Mae cymaint wedi ei ysgrifennu am y llong sydd i'w gweld yn y gwaith, ond rwy'n synnu bod cynifer o bobl leol yn gwybod dim amdani. Mae ei chymeriad yn newid yn gyson a gyda threigl amser, yn arbennig yn ddiweddar wrth iddi ddod yn fath o gynfas mawr i artistiaid graffiti lleol. Mae'r newid diweddar hwn yn golygu bod eich gwaith yn dod yn fwy o ddogfen hanesyddol o'i hedrychiad yn y gorffennol - allwch chi sôn am yr agwedd honno yn y gwaith, yn ogystal â gallu'r ffilm i ddal a chofnodi amser a lle?

AC: There is programme of film screenings that you curate for the Whitechapel in London. Could you explain more about how you see all of your activities meeting together, curating and art-making?

BV: My practice combines making my own short films, and curating and writing about those of other artists. The disciplines complement and inform each other, so that as I'm researching ideas or techniques of another filmmaker, I'm thinking about my own, and when I'm pointing my camera and making images, I'm stocking up on ideas for my academic writing. For me, curating involves a combination of practical looking and selection and a more cerebral and reflective - as well as organisational - mode. There is as much thought that goes into the selection and putting together of other peoples films as there is that goes into selecting my own shots to edit into sequences and films.

AC: Please tell me about the work Memos. It is a work that really resonates with MOSTYN as it looks at the locale. So much has been written about the ship that features in the work, but I am still surprised by the amount of people locally who don't know anything about it at all. Its character is changing through and with time, especially recently with it becoming a kind of large canvas for local graffiti artists. With this recent change, your piece becomes more of a historical document of its past appearance - could you speak about that aspect in the work as well, the ability of film to capture and document time and place?



BV: Roeddwn bob amser yn ymwybodol o long Dug Lancaster gan fod y trên, ar y ffordd o Gymru, neu yn ôl adref o unrhyw le, yn teithio heibio i gorff y llong a oedd yn gorwedd ar gae ger y Fflint. Hyd yn oed fel plentyn roedd yn fy atgoffa o olygfa o ffilm ac mae wedi aros yn fy nghof ers hynny. Penderfynais ddod oddi ar y trên yn yr orsaf agosaf, gyda chamera, i'w ffilmio. Roedd cyfansoddiad yn bwysig iawn: roedd y ffordd yr oeddwn yn fframio pob saethiad llonydd yn gwneud i mi feddwl am ffotograffau llonydd, ac roedd natur lonydd y lluniau (gydag adar yn hedfan yn achlysurol i mewn ag allan o'r ffrâm) yn adleisio natur lonydd y llong farw. Yna teithiais o'r llong ymhellach i'r de i Ynys Môn i hen fwynglawdd copr a ddefnyddiwyd yn y gorffennol fel lleoliad ar gyfer ffilm ffuglen wyddonol. Yn sicr mae'n teimlo felly - ac yn rhoi teimlad o déjà-vu, eto i gyd rhaid mai rhywbeth a welais ar y sgrin oedd yn dod i fy nghof - golygfeydd o set ffilm ar Mars, efallai, neu anialwch sych ymhell i ffwrdd o Gymru. Mae fy rheithiau ar hyd yr arfordir, rhwng y môr, y llong a'r mwynglawdd gopr wedi eu hamlygu yn y ffilm gan ddilyniannau teithio a saethwyd mewn trenau a cheir, gyda sain i-pod neu radio car, sy'n cyferbynnu â thawelwch y lleoliadau yr wyf yn mynd iddynt. Yn ddiweddar, wrth deithio adref ar ôl ymweld â'r brifysgol, sylwais fod lluniau glas wedi eu paentio ar y llong. Mae'r edrychiad esthetig gwyn, aur a rhydlyd a ddaliwyd gennyf ar ffilm yn Memos felly wedi datblygu'n ddogfen hanesyddol, ac yn yr un modd ag yr oeddwn yn mynd heibio i'r llong bob tro yr oeddwn yn teithio ar y trên, mae amser wedi mynd heibio ers i mi greu'r ffilm sy'n golygu mai ffilm am gof ydyw.

BV: I was always aware of the Duke of Lancaster ship because the train that took me from home in Wales, or back to home from elsewhere, travelled past its body, lying dry in a field near Fflint. Even as a child it reminded me of a scene from a film and it stayed in my memory ever since. I decided to get off the train at the nearest station, with a camera, to film it. Composition was very important: how I framed each static shot made me think of still photographs, and the static nature of the images (only occasionally interrupted by birds flying in and out of the frame) echoed the static nature of the dying ship. I then travelled from the ship further south to Anglesey and a disused copper mine that was once, apparently, used as a location for a sci-fi film. It certainly feels like that - conjuring in me a sense of déjà-vu, yet what I have seen must have been something on screen - scenes from a movie set on Mars, perhaps, or a dry desert far away from Wales. My journeys along the coast, between sea, ship and copper mine, are punctuated in the film by travel sequences shot in trains and cars, with the sound of an i-pod or car radio, contrasting the hush of the locations at which I arrive. Recently, travelling home on a visit from university, I noticed the ship has been painted with blue pictures. The white, golden and rusty aesthetic I captured on film in Memos has therefore passed into a historical document, and in the same way that I passed the ship each time I took that train journey, time has passed the film and cast it into a film about memory.

20.07 – 20.10 2013

Esgyn /
Uprisings

•
Holl weithiau gan Becca
Voelcker / All works by
Becca Voelcker.

—
Memos, 2012
delwedd lonydd o ffilm /
film still

•
Cynhyrchwyd y cyhoeddiad hwn
i gyd-fynd â'r arddangosfa
Esgyn gan Becca Voelcker,
fel rhan o raglen Oriol 6.

—
MOSTYN, 20 Gorffennaf -
20 Hydref 2013

Ysgogwyd a churadwyd Oriol
6 a'i rhaglen Esgyn gan:
Adam Carr, Curadur Rhaglen
Celfyddydau Gweledol MOSTYN.

—
Mae Esgyn yn rhoi
arddangosfeydd unigol i
artistiaid ifanc sy'n dod
i'r amlwg ond heb gael
arddangosfa unigol mewn
lleoliad sefydliadol, naill
ai'n genedlaethol neu'n
rhyngwladol. Mae'n caniatáu
i artistiaid weithio
dan amodau proffesiynol
a chyflwyno'u gwaith i
gynulleidfa ehangach.

—
Gwnaed Esgyn yn bosibl
trwy gefnogaeth hael:
Sefydliad Esmée Fairbairn

—
ISBN: 978-0-906860-70-0

—
Mae cofnod catalog o'r
llyfr hwn ar gael gan
Lyfrgell Genedlaethol Cymru
a'r Llyfrgell Brydeinig.
Cyhoeddiad © 2013 MOSTYN
a'r awduron.

—
Cyfieithu: Cymen
Dylunio: Elfen
Prawf darllen: Lin Cummins

—
Ffotograffiaeth: Pob
ffotograffiaeth trwy
garedigrwydd yr artist.

•
This publication has been
produced to accompany the
Uprisings exhibition by
Becca Voelcker, as part
of Gallery 6's programme.

—
MOSTYN, 20 July -
20 October 2013

—
Gallery 6 and its programme
Uprisings has been initiated
and curated by: Adam Carr,
Visual Arts Programme
Curator, MOSTYN.

—
Uprisings gives solo
exhibitions to young and
emerging artists who are
yet to receive a solo
exhibition in an institution
setting, either nationally
or internationally. It
allows artists to work under
professional conditions and
present their work to
a larger audience.

—
Uprisings has been made
possible by the generous
support of: Esmée Fairbairn
Foundation

—
ISBN: 978-0-906860-70-0

—
A catalogue record for this
book is available from the
National Library of Wales
and the British Library.
Publication © 2013 MOSTYN
the authors.

—
Translation: Cymen
Design: Elfen
Proofreading: Lin Cummins

—
Photography: All photography
courtesy the artist.

MOSTYN

ef Esmée
Fairbairn
FOUNDATION